GISDA

# Pecyn Gwybodaeth Swydd Trysorydd Bwrdd Rheoli GISDA

## Ymunwch â ni i gryfhau dyfodol Pobl Ifanc Gwynedd







# Pwy ydy GISDA?

## MUDIAD SY'N CAEL EI ARWAIN GAN BOBL IFANC I BOBL IFANC

Mae GISDA wedi bod yn cefnogi pobl ifanc bregus ers 1985.
Heddiw mae GISDA yn cyflogi 50 o staff ac yn cefnogi dros 500 o bobl ifanc ar draws Gwynedd bob blwyddyn.

## EIN HAMCANION

**Darparu cefnogaeth a chyfleoedd i bobl ifanc digartref a bregus yng Ngwynedd drwy darparu gwasanaethau o fewn 5 thema strategol:**

- GISDA Llety / Accommodation
- GISDA Llesiant / Wellbeing
- GISDA Llais / Voice
- GISDA Cefnogaeth / Support
- GISDA Cyfleon / Opportunities

# Trysorydd Bwrdd

## Cyfle i Arwain a Gwneud Gwahaniaeth

Mae GISDA yn chwilio am unigolyn brwdfrydig a medrus i ymuno a'n Bwrdd Rheoli fel Trysorydd. Mae hwn yn gyfle i ddefnyddio eich arbenigedd ariannol i gefnogi sefydliad sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ifanc ledled Gwynedd

Fel Trysorydd byddwch yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau sefydlogrwydd a chynaliadwyedd ariannol GISDA gan helpu'r Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau llywodraethu a strategol

# Y Rôl

Mae'r Trysorydd yn ymddiriedolwr gyda chyfrifoldeb penodol dros oruchwyliaeth ariannol y sefydliad

Byddwch yn:

- Cadeirio Is-grwp Cyllid ac Asedau GISDA
- Helpu aelodau bwrdd deall adroddiadau a gwybodaeth ariannol
- Cynghori'r bwrdd ar sut i gyflawni ei gyfrifoldebau ariannol a llywodraethu
- Adolygu perfformiad ariannol a risgiau ariannol y sefydliad
- Ymgynghori ag arbenigwyr proffesiynol lle bo angen
- Cydweithio efo rheolwyr cyllid a staff perthnasol ar faterion ariannol

Nid rôl weithredol o ddydd i ddydd yw hon, ond rôl arweinyddol ar lefel strategol.

# Nodweddion Personol

Mae'r canlynol yn hanfodol:

- Dealltwriaeth gadarn o reolaeth ariannol a chyfrifyddiaeth
- Profiad o reoli cyllid, cynllunio ariannol neu lywodraethu ariannol
- Y gallu i gyflwyno gwybodaeth ariannol, gymhleth mewn ffordd glir
- Meddwl strategol a'r gallu i gyfrannu at drafodaethau ar lefel bwrdd
- Ymrwymiad i werthoedd ac amcanion GISDA

Byddai'r canlynol yn ddymunol:

- Profiad o gyllid elusennol neur' trydydd sector
- Profiad blaenorol fel ymddiriedolwr neu gyfarwyddwr anweithredol



# Rôl yr Aelod Bwrdd

Fel aelod o'r Bwrdd Rheoli, byddwch yn rhannu cyfrifoldeb am lywodraethu a chyfeiriad strategol GISDA.

Bydd disgwyl i bob ymddiriedolwr:

- Weithredu er budd gorau GISDA
- Cyfrannu at osod cyfeiriad strategol GISDA
- Monitro perfformiad a rheolaeth risg
- Sicrhau bod GISDA yn gweithredu'n unol a'i amcanion elusennol, ei werthoedd a'i rwymedigaethau cyfreithiol
- Gweithredu fel llysgennad dros waith a chenhadaeth GISDA

# Ymrwymiad

Mae hwn yn rôl wirfoddol ac ni thelir cydnabyddiaeth ariannol i ymddiriedolwyr. Gellir hawlio treuliau rhesymol sy'n codi wrth gyflawni dyletswyddau'r rôl.

- Tymor penodiad arferol: 3 blynedd (gellir adnewyddu)
- 6 chyfarfod bwrdd y flwyddyn
- Cyfarfodydd Is-grwp Cyllid ac Asedau deufisol

# Ein Heffaith

Bob blwyddyn mae GISDA yn cefnogi pobl ifanc drwy:

- Darparu llety diogel
- Cefnogi datblygiad sgiliau byw annibynnol
- Cynorthwyo pobl ifanc i gael mynediad i addysg, hyfforddiant a gwaith
- Cynnig gweithgareddau therapiwtig a chymunedol

Mae ein gwaith yn helpu pobl ifanc i symud o ansicrwydd a digartrefedd tuag at sefydlogrwydd a dyfodol cadarnhaol.

**Fel Trysorydd y Bwrdd, byddwch yn helpu i sicrhau bod yr effaith hon yn parhau – ac yn tyfu – mewn ffordd gynaliadwy**



# Y Buddion i Chi

**Beth Yw'r Buddion i Chi?**

- Profiad arwain ar lefel Bwrdd
- Datblygu sgiliau strategol a llywodraethu
- Cyfle i ddefynddio eich sgiliau i gefnogi achos pwysig
- Rhwydwaith proffesiynol ehangach
- Boddhad o wneud gwahaniaeth cymdeithasol gwirioneddol

# Sut i wneud Cais

Anfonwch:

- CV cyfredol
- Llythyr egluhaol neu fideo byr yn amlinellu pam rydych yn dymuno ymuno â GISDA a'r profiad a'r sgiliau y byddech yn eu cynnig i'r rôl

At:

Judith Jones (Rheolwr Corfforaethol)

judith.jones@gisda.co.uk

21-23 Y Maes, Caernarfon, LL55 2NA

Rydym yn croesawu sgyrsiau anffurfiol cyn gwneud cais.